SUPERVACÁNEOUS, (adj.) afraid, afreidiol, dilos, anfuddiol.

To SUPERVÉNE, (v.n.) dyfod at, ychwanegu.

SUPERVÉNIENT, (adj.) adchwanegol.

SUPERVÉNTION, (ſub.) adchwanegiad.

To SUPERVÍSE, (v. a.) golygu, edrych dros, goruchwilio.

SUPERVÍSOR, (ſ.) golygwr.

SUPÍNE, (adj.) a'i wyneb i fynu, ar ei gefn. —ſegur, eſgeulus, diog, ſwrth.

SUPÍNENESS, (ſ.) diogi, ſyrthni.

SÚPPER, (ſ.) ſwpper.

To SÚPPLANT, (v.a.) diwadnu, diſodlu, bachellu, dymchwelyd.

SUPPLÁNTER, (ſub.) diſodlwr, diwadnwr.

SÚPPLE, adj.) Edr. *Pliant.*

To SÚPPLE, (v.) meddalhau, yſtwytho,

SÚPPLEMENT, (ſub.) cyflawniad, chwanegiad at beth i gyflawni ei ddiffygiadau.

SUPPLEMÉNTAL, } (adj.) ad-
SUPPLEMÉNTARY, } chwanegol.

SÚPPLENESS, (ſ.) yſtwythder, meddalwch.

SÚPPLETORY, (adj.) a gyflawno eiſiau.

SUPPLÍANT, (adj.) ymbilgar, ymhweddus.

SÚPPLICANT, (ſ.) ymbiliwr.

To SÚPPLICATE, (v.n.) ymbil, erfyn yn oftyngedig, ymhwedd.

SUPPLICÁTION, (ſ.) ymbiliad, erfynniad, adolwyn, ufudd-arch.

To SUPPLY', (v. a.) llenwi, cyflawni. ---- gweini, rhoi'r hyn fo diffyg.

SUPPLY', (ſub.) porth, cynnorth, cynnorthwy.

SUPPÓRT, (ſ.) atteg, annel; cynhaliaeth; cynnorth.

To SUPPÓRT, (v. a.) cynnal, attegu; cynnorthwyo; dioddef.

SUPPÓRTABLE, (adj.) dioddefadwy.

SUPPÓRTER, (ſ.) cynhaliwr.

SUPPÓSAL, (ſ.) tyb.

To SUPPÓSE, (v. a.) tybio, lletybio, barnu, meddylio, meddyliaid; goſod i lawr heb brawf.

SUPPOSÍTION, (ſ.) tyb, lletyb, tebygoliaeth.

SUPPOSITÍTIOUS, (adj.) ffugiol.

SUPPÓSITORY, (ſ.) rhyfrfang, tinſang, rhefrwth.

To SUPPRÉSS, (v. a.) cyfarfengi; goſtegu; celu, rhwyſtro, lludiaw.

SUPPRÉSSION, (ſ.) rhwyſtrad. —— goſtegiad, celiad.

To SÚPPURATE, (v. n.) crawni, geri, magu crawn.

SUPRALAPSÁRIAN, (ſ.) un yn dal i Dduw arfaethu etholedigaeth a gwrthodedigaeth dynolryw cyn cwymp Adda.

SUPRÉMACY, (ſ.) uchafiaeth, goruchafiaeth.

SUPRÉME, (adj.) goruchel, uchaf, pennaf.

To SURCÉASE, (v. n.) diweddu, gorphen, darfod.

To SURCHÁRGE, (v.) llwytho yn ormodol, gorlwytho; gormeſu.

Sup-

SURCÍNGLE, (ſ.) gwregys, torr-gengl, cengl.
SURCÓAT, (ſ.) gorbais, pais ſawr.
SURD, (adj.) byddar.
SURE, (adj.) diogel, ſicr, cadarn, diyſgog, dilys.
SÚRETISHIP, (ſub.) mechniaeth, mechni.
SÚRETY, (ſub.) mach, meichiau, machnydd.
SÚRFACE, (ſ.) wyneb, arwyneb, aruchedd.
SÚRFEIT, (ſ.) alar, torrdynn.
To SÚRFEIT, (v.) alaru, torrdynnu, gwneuthur ei hun yn glaf wrth fwytta.
SURGE, (ſ.) tonn.
SÚRGEON, (ſ.) llaw-feddyg.
SÚRGERY, (ſ.) llawfeddyginiaeth.
SÚRGY, (adj.) tonnog.
SÚRLINESS, (ſ.) Edr. *Moroſeneſs*.
SÚRLY, (adj.) Edr. *Moroſe*.
To SURMÍSE, (v. a.) Edr. *to ſuſpect*.
SURMÍSE, (ſ.) tyb.
To SURMÓUNT, (v. a.) gorfod, gorchfygu; rhagori.
SURNÁME, (ſ.) cyfenw.
To SURPÁSS, (v. a.) rhagori.
SURPÁSSING, (adj.) rhagorol, mewn gradd uchel, uchlaw.
SÚRPLICE, (ſ.) offerengrys.
SÚRPLUS, } (adj.) Edr. *Over-*
SÚRPLUSAGE, } *plus*.
SURPRÍSAL, } (ſ.) daliad diſym-
SURPRÍSE, } mwth, dyſodiad diſymmwth ar un; cythrudd, cythrwfl.
To SURPRÍSE, (v. a.) dal heb wybod, cymmeryd yn ddiſymmwth, ſynnu, peri ſyndod.
SURPRÍSING, (adj.) rhyfeddol, aruthrol.
SURPRÍSINGLY, (adj.) yn rhyfeddol.
To SURRÉNDER, (v. a.) gwrhâu, ymroddi, rhoi i fynu.
SURRÉNDER, } (ſub.) gwarogaeth,
SURRÉNDRY, } gwriogaeth.
SURREPTÍTIOUS, (adj.) a wnelir yn lladradaidd.
SÚRROGATE, (ſub.) rhaglaw, dirprwywr.
To SURRÓUND, (v. a.) amgylchu, amgylchynu.
SURTÓÚT, (ſ.) pais newydd i wiſgo ar uchaf dillad.
To SURVÉNE, (v. n.) Edr. *to ſupervene*.
To SURVÉY, (v. a.) golygu, goruchwilio, edrych dros.—meſuro tîr.
SURVÉY, (ſ.) golwg.—meſur.
SURVÉYOR, (ſ.) golygwr.—meſurwr.
To SURVÍVE, (v. n.) gorfucheddu, byw ar ol, byw yn hwy.
SURVÍVER, } (ſ.) gorfucheddwr.
SURVÍVOR, }
SURVÍVORSHIP, (ſ.) gorfucheddiaeth.
SUSCÉPTIBLE, (adj.) teimladwy, cymmwys o deimlad, neu i dderbyn argraff.
SUSCÍPIENCY, (ſub.) derbyniad; caniattâd.
SUSCÍPIENT, (ſ.) derbyniwr; canniattâwr.
To SÚSPECT, (v. a.) tybio, tybygu; drwgdybio, gwan-dybio.
To SUSPÉND, (v.) crogi, crogi ar, rhoi ynghrog wrth.—oedi, gohirio.
SUSPÉNSE, (ſ.) amheuaeth, petruſder, annilyſrwydd.—oediad.
SUSPÉNSION, (ſ.) crogiad ymddibynniad.—oed, oediad, attaliad, diſwyddad dros amſer.
SUSPÍCION, (ſ.) drwgdyb, llettyb, eiddigedd.
SUSPÍCIOUS, (adj.) drwgdybus.
SUSPÍCIOUSNESS, (ſ.) drwgdyb.
To SUSTÁIN, (v. a.) cynnal i fynu, attegu; goddef, ymoddef; anddiffyn, cynnorthwyo.
SÚSTENANCE, (ſub.) cynhaliaeth, ymborth, lluniaeth.
SÚTLER, (ſ.) gwneuthur ymborth mewn gwerſyll.
SÚTURE, (ſ.) gwniad archoll.

S W

SWAB, (ſ.) Edr. *Mop*.
To SWÁDDLE, (v. a.) rhwymo.—*Fig.* pwyo, curo.
SWÁDDLE, } (ſ.) rhwym-
SWÁDDLING *band*, } yn.
To SWAG, (v. n.) ſoddi wrth ei bwys.
To SWÁGGER, (v. n.) ymogoneddu, ymffroſtio, ymfalchio, rhodreſu.
SWÁGGERER, (ſ.) rhodreſwr.
SWAIN, (ſ.) bachgen, dyn gwledig, bugail.

SWÁLLOW,

Swállow, (ſ.) gwennol.—llwnge, cég.
To swallow, (v. a.) llyngcu, traſllyngcu, cegu.
Swamp, (ſ.) corſ.
Swámpy, (adj.) corſog.
Swan, (ſ.) alarch.
To swap, (v. a.) Edr. *to exchange.*
Sward, (ſ.) tonn, tonnen.
Swarm, (ſ.) haid, gyrr, mintai.
To swarm, (v. n.) heidio.
Swárthy, (adj.) tywyll, gwineu, gwineuddy.
Swárthiness, (ſ.) Edr. *Tawniness.*
To swash, (v. n.) clindarddach, gwichio, tryſtio.
Swath, (ſ.) yſtod, rheſtr.—yſnoden.
To swathe, (v. a.) rhwymo.
To sway, (v. a.) rheoli, llywodraethu, llywio.
Sway, (ſ.) arglwyddiaeth, rheolaeth, rhwyſg, awdurdod.
To sweale, (v.) toddi, diſa, yſu.
To swear, (v. n.) tyngu, rheithio.
Swéarer, (ſ.) tyngwr.
Sweat, (ſ.) chwys.
To sweat, (v. n.) chwyſu.
Swéaty, (adj.) chwyſlyd.
To sweep, (v. a.) yſgubo.
Sweep, (ſub.) yſgubad.—dinyſtr, diſtryw.
Swéeper, (ſ.) yſgubwr.
Swéepings, (ſ.) yſgubion.
Sweet, (adj.) melus, pêr, peraidd.
To swéeten, (v. a.) meluſu.
Swéetheart, (ſ.) cariad.
Swéetmeat, (ſub.) ammheuthunfwyd, anwyn.
Swéetness, (ſ.) meluſder, meluſrwydd, pereiddrwydd.
To swell, (v. n.) chwyddo, ymchwyddo.
Swell, (ſ.) chwydd, ymchwydd.
Swélling, (ſ.) chwydd, chwyddiad.
To swélter, (v.) craſu wrth tân.
To swerve, (v. n.) crwydro, cyfeiliorni, gŵyro.
Swift, (adj.) clau, buan, eſgud, chwimwth, cyflym.
Swíftness, (ſ.) buander, cyflymder.
To swig, (v. n.) traflyngcu.
To swill, (v. a.) yfed yn wttreſgar.—golchi, dyſtreulio.

To swim, (v. n.) nofio.
Swímmer, (ſ.) nofiwr.
Swine, (ſ.) mochyn, môch.
Swíneherd, (ſ.) meichiad, meichiad.
To swing, (v. a.) figlo peth a ſo ynghrog, cwhwſan. — chwildroi.
Swing, (ſ.) rhaff ynghrog wrth beth fel y gellir figlo un wrthi, yn ol ac ymlaen.
To swinge, (v. a.) Edr. *to Whip.*
Swínging, (adj.) mawr.
Swínish, (adj.) mochaidd.
To swink, (v. n.) llafurio, poeni.
Swink, (ſ.) llafur, poen.
Switch, (ſ.) gwialen yſgwyth.
To switch, (v. a.) gwialennodio.—Edr *to Jerk.*
Swível, (ſ.) troell.
To swoon, (v. n.) llewygu, lleſmeirio, gloeſygu.
Swoon, (ſ.) llewyg, lleſmair, bâs.
To swop, (v. a.) newidio, cyfnewid.
Sword, (ſ.) cleddyf.
Swórdman, (ſ.) cleddyfwr.

S Y

Sy'cophant, (ſ.) gwenhieithiwr, truthiwr, huſtingwr.
Sycophántic, (adj.) gwenhieithus.
Sy'llable, (ſ.) ſillaf.
Sy'llabus, (ſ.) Edr. *Abſtract.*
Sy'llogism, (ſub.) cynnulddadl, rheſwm neu ddadl o deir-rhan, ſef dau fraich a chlo, megis *y cyfryw a ganlyn, lle profir ſod Duw yn deilwng o'n haddoliad: Mae ein Creawdr yn deilwng o'n haddoliad; Duw yw ein Creawdr; yn ganlynol mae Duw yn deilwng o'n haddoliad.*
To sy'llogize, (v. n.) rheſymmu yn y cyfryw fodd.
Sy'lvan, (adj.) coedog.
Sy'mbol, (ſ.) arwydd, nôd; dull; cyſgod.
Symbólical, (adj.) Edr. *Typical.*
Symmétrical, (adj.) Edr. *proportionate.*
Sy'mmetry, (ſ.) cymmedrolder, cyttundeb.
Sympathétic, } (adj.) cydodd-
Sympathétical, } efol, cydymdeimladol.
To sympathíze, (v. a.) cydoddef, cydymdeimlo.

Sy'mpathy, (ſ.) cydymdeimlad, cydoddef.
Symphónious, (adj.) Edr. *Harmonious.*
Sy'mphony, (ſ.) cydlais, cydgerdd, cynghanedd.
Sy'mptom, (ſ.) arwydd, argoel.
Symptomátic, Symptomátical, (adj.) arwyddoccawl.
Sy'nagogue, (ſub.) cynnulleidfa, ymgynnull.
Sy'naxis, (ſ.) cynnulleidfa.---ſacrament ſwpper yr Arglwydd.
Sy'nchronism, (ſ.) digwyddiad amryw bethau hynod ar yr un amſer.
Sy'ncope, (ſ.) *In grammar,* canoldrwch.——*In phyſic,* marwlewyg, lleſmair.
Sy'nod, (ſ.) cymmanfa offeiriaid, cyngor, ſeneddr.
Synónima, (ſub.) geirau o'r un arwyddoccad, cydenwau.
Synónimous, (adj.) cydenwol, o'r un arwyddoccad, cydarwyddoccaol.
Synópsis, (ſ.) golwg gyffredinol; yr holl rannau wedi eu dwyn dan un olwg.
Sy'ntax, (ſ.) cyſtrawen, cyttrefn; caſgl.
Sy'nthesis, (ſ.) cyſofod, cydgyſſylltiad.
Synthétic, (adj.) cyſſylltiol.
Sy'phon, (ſ.) Edr. *Sipbon.*
Sy'ringe, (ſ.) chwiſtrell.
To **sy'ringe,** (v. a.) chwiſtrellu.
Sy'stem, (ſ.) crynodeb, caſgliad, cyſſylltiad amryw bethau yn cydweithio, dull, anſodd; trefn.
Systemátic, Systemátical, (adj.) Edr. *Methodical.*
Sy'stole, (ſ.) byrrhâd ſillaf hîr.—cyd-dynniad y galon.

Tabefáction, (ſ.) darfodedigaeth, difaedd.
Tábernacle, (ſ.) pabell, llueſt.
Tábid, (adj.) nychlyd, darfodedig.
Táblature, (ſub.) paentiad ar welydd.
Táble, (ſub.) bord, bwrdd, tabl; llech.——cledr llaw.—Edr. *Index.*
To **table,** (v. n.) bordio, byrddio.
Table-*beer,* (ſ.) diod wan i yfed gyd â bwyd.
Tábor, (ſ.) tabwrdd.
Tácit, (adj.) diſtaw, diſwn.
Tacitúrnity, (ſ.) diſtawrwydd, tawedogrwydd.
Tack, (ſ.) hoelen.—troad llong ar y môr.
To **tack,** (v. a.) hoelio; pwytho; cyſſylltu.—troi llong.
Táckle, (ſ.) taccl, offer, trecc.
Táctics, (ſ.) byddinad.
Táction, (ſ.) cyffyrddiad, teimlad.
Tádpole, (ſ.) grifft.
Táffetty, (ſ.) ſidan tenau.
Tag, (ſ.) dernyn bychan o fettel a roddir ar ben yſnoden neu linyn.
Tail, (ſ.) cynffon, cloren, rhonnell.
Tai'lor, (ſ.) yſginawr, gwniedydd.
To **taint,** (v. a.) llygru, diwyno, halogi, yſtaenio.
Taint, (ſub.) mann, brycheuyn; llwgr, halogiad.
Taíntless, (adj.) dilwgr, dihalogedig.
To **take,** (v.a.) cymmeryd, derbyn; deall.
Táker, (ſ.) cymmerwr, derbyniwr.
Tale, (ſ.) chwedl, yſtori.
Tálebearer, (ſ.) hûſtingwr, adroddwr chwedlau.
Tálent, (ſ.) talent, rhodd, dawn.
Talismánic, (adj.) Edr. *Magical.*
To **talk,** (v.) ſiarad, ymddiddan, chwedleua, dadleu.
Talk, (ſ.) ſiarad, ymddiddan.
Tálkative, (adj.) ſiaradus, dywedgar, baldorddus, chwedleugar.
Tálkativeness, (ſ.) Edr. *Loquacity.*
Tall, (adj.) tal, uchel, hîr.
Tallage, (ſ.) toll, trêth.
Tállow, (ſ.) gwêr.
Tallowchándler, (ſ.) canhwyllwr, gwneuthurwr canhwyllau.
Tálly, (ſub.) yſgôr, rhygnbren i gadw cyfrif.
To **tálly,** (v.) addaſu, cyfaddaſu, atteb i'r naill y llall. **Tál-**

TÁLLTMAN, (ſ.) un a wertho bethau ar hûr wythnoſol.
TÁLMUD, (ſ.) llyfr traddodiadau 'r Iuddewon.
TÁLLNESS, (ſ.) uchder, hirder.
TÁLON, (ſ.) ewin, crafangc.
TÁMARIND, (ſ.) rhyw aeron o'r *India*.
TAME, (adj.) dôf, gwâr, llonydd, hywedd, tirion.
To TAME, (v. a.) dofâ, gwarhau, hyweddu.
TÁMENESS, (ſ.) gwaredd, gwareddowgrwydd, llonyddwch.
TÁMER, (ſ.) dofwr, torrwr.
TÁMER *of horſes*, torrwr ceffylau.
To TÁMPER, (v.a.) ymyrru.
To TAN, (v a.) barcio.
TANG, (ſ.) blâs cryf.
TÁNGIBLE, (adj.) teimladwy.
To TÁNGLE, (v.a.) Edr *to entangle*.
TANK, (ſ.) llynn, merlynn.—cerwyn.
TÁNKARD, (ſ.) tangced.
TÁNNER, (ſ.) barcer.
To TÁNTALIZE, (v. a.) aflonyddu, blino â gobeithion na's gellir eu cyrhaeddyd.
TÁNTAMOUNT, (adj.) Edr *Equivalent*.
To TAP, (v. a.) cyffwrdd yn dirion. ——gollwng.
TAP, (ſ.) tap, dwfel.——ergyd tirion.
TAPE, (ſ.) yſnoden.
TÁPER, (ſ.) canwyll gwyr.
TÁPER, (adj.) Edr. *Conical*.
TÁPESTRY, (ſ.) tapin, tapina, teiſban.
TÁPSTER, (ſ.) trulliad.
TAR, (ſ.) pŷg gwlyb, tarr.—*Fig.* morwr.
To TAR, (v.a.) pygo.
TÁRDINESS, (ſub.) hwyrder, munſgrelli, diweddarwch.
TÁRDY, (adj.) muſgrell, hwyrfrydig, diweddar, hwyr.—drygionus.
TARE, (ſ.) efer, llef. ——lwſiedigaeth mewn pwyſau!
TÁRGET, (ſ.) Edr. *Buckler*.
TÁRGUM, (ſ.) deongliad pum llyfr Moſes yn y *Chaldee*.
To TÁRNISH, (v.) Edr *to Sully*.
TARRÁS, (ſ.) morter.—rhodfa.—pen tŷ.
To TÁRRY, (v.n.) aros, ſofyll, trigo.
TART, (adj.) egr chwibl, ſur.
TART, (ſ.) paſtai ffrwythau.
TARTÁNE, (ſ.) math ar long.
TÁRTAREAN, } (adj.) uffernol.
TARTÁREUS, }
TÁRTNESS, (ſ.) Edr. *Sharpneſs*.
TASK, (ſ.) dogn, taſg, yſgâr.
To TASK, (v.a.) taſgu, dognu.
TASTE, (ſub.) blâs, chwaeth, archwaeth.
To TASTE, (v.a.) profi, archwaethu, blaſu.
TÁSTELESS, (adj.) diflas.
TÁTTER, (ſ.) Edr. *Rag*.
To TÁTTER, (v.a.) rhwygo.
TATTERDEMÁLION, (ſ.) dyn bratiog.
To TÁTTLE, (v. n.) Edr. *to prate*.
TÁTTLER, (ſ.) baldorddwr, gwagſiaradwr.
TATTÓO, (ſ.) curiad tabwrdd i alw milwyr i'w lletty.
TÁVERN, (ſ.) tafarndy.
TAUGHT, (preter. & part. paſſ. of *to teach.*)
To TAUNT, (v.a.) Edr. *to inſult*.
TAUNT, (ſ.) Edr. *Inſult*.
TAUTÓLOGY, (ſub.) ailadroddiad, adroddiad yr un peth yn fynych.
To TAW, (v.a.) cywairio lledr gwyn.
TÁWNY, (adj.) melynddu.
TAX, (ſ.) treth, ardreth, taſg.
To TAX, (v. a.) trethu, ardrethu, taſgu.——cyhuddo.
TÁXABLE, (adj.) trethadwy.
TAXÁTION, (ſ.) trethiad, taſgiad.
TÁXER, (ſ.) trethwr, taſgwr.

T E

TEA, (ſ.) dail coed a dyfant mewn mannau yn *China*.
To TEACH, (v. a.) dyſgu, addyſgu, athrawu, athrawiaethu.
TÉACHABLE, (adj.) addyſgadwy, athrawus.
TÉACHER, (ſ.) athraw, addyſgwr, dyſgawdwr.
TEAGUE, (ſ.) gwyddel.
TEAL, (ſub.) dyfr-iar, corrhwyad, crachwyad.
TEAM, (ſ.) gwêdd, iau.
TEAR, (ſ.) deigr, deigryn.—rhwyg.

To

To TEAR, (v. a.) rhwygo, carpio, dryllio.

To TEASE, (v.a.) cribo.—blino, dygnu, aflonyddu.

TEAT, (ſ.) têth, bron.

TÉCHNICAL, (adj.) celfydd, celfyddus.

TÉCHY, (adj.) Edr. *Peeviſh.*

TECTÓNIC, (adj.) adeilaidd, adeiladol.

To TED, (v.a.) gwaſgaru neu dannu gwair.

TÉDIOUS, (adj.) maith, parhaus, hir, blin.

TÉDIOUSNESS, (ſ.) meithder, hŷd.

To TEEM, (v.) eſgor.—arllwys, tywallt allan.

TÉEMING, (adj.) ffrwythlawn.

TEEN, (ſ.) Edr. *Sorrow.*

TEENS, (ſub.) y blynyddau o ddeuddeg i ugain.

TEETH, (plur. of *tooth*) dannedd.

To TEETH, (v. n.) magu dannedd.

TÉGUMENT, (ſ.) hws, huling, cwrlid.

To TEH-HE, (v. n.) chwerthin.

TEINT, (ſ.) lliw.

TÉLESCOPE, (ſ.) yſpienddrych.

To TELL, (v.a.) dywedyd; adrodd.—rhifo, cyfrif.

TELL-TALE, (ſ.) huſtingwr.

TEMERÁRIOUS, (adj.) Edr. *Raſh.*

TEMÉRITY, (ſ.) Edr. *Raſhneſs.*

TÉMPER, (ſ.) tymmer, tymmeryſrwydd, ardymmer, cymmedrolder.

To TÉMPER, (v.a.) tymmheru, ardymmeru, cymmedroli, cymmyſgu.

TÉMPERAMENT, (ſ.) tymmheredd, anſodd, anſawdd.

TÉMPERANCE, (ſ.) cymmedroldeb, cymmeſurwydd, ardymmer.—ymgynnal.

TÉMPERATE, (adj.) tymmherus, cymmedrol.

TÉMPERATURE, (ſ.) Edr. *Temperament.*

TÉMPEST, (ſub.) temheſtl, yſtorm, dihinedd.—terfyſg.

TEMPÉSTUOUS, (adj.) Edr. *Stormy.*

TÉMPLAR, (ſ.) aſtudiwr cyfraith.

TÉMPLE, (ſ.) teml.—arlais.

TÉMPORAL, (adj.) amſerol.

TÉMPORARY, (adj.) amſerol, tros amſer.

To TÉMPORÍZE, (v.) cydſeinio a'r amſer, troi gyd a'r amſer.

To TEMPT, (v. a.) temtio, hudo denu; profi.

TÉMPTER, (ſ.) temtiwr, methlwr, profwr.

TEMPTÁTION, (ſub.) profedigaeth, temtiad.

TEN, (adj.) dêg.

TÉNABLE, (adj.) Edr. *Defendable.*

TENÁCIOUS, (adj.) gwydn, gafaelus, gafaelgar; crintach; gwrthnyſig.

TENÁCITY, (ſ.) gwydnedd, gafaelgarwch; crintachrwydd.

TÉNANT, (ſ.) deiliad.

TÉNANTABLE, (adj.) Edr. *Inhabitable.*

To TEND, (v.) dal ſylw.—gweini, gweinyddu.—tueddu tu ag at.

TÉNDENCE, } (ſ.) tueddiad, tuedd-
TÉNDENCY, } rwydd.—gyrriad at, amcan.

TÉNDER, (adj.) tyner, meddal, eſmwyth.—ieuange.—tirion.

TÉNDER, (ſ.) cynnyg, cynnygiad.

To TÉNDER, (v.a.) Edr. *to offer.*

TENDERHÉARTED, (adj.) calon dyner, toſturiol, trugarog.

TÉNDERNESS, (ſ.) tynerwch, tirion-deb, meddalwch.

TÉNDINOUS, (adj.) Edr. *Sinewy.*

TÉNDON, (ſ.) gewyn.

TÉNDRIL, (ſub.) blaguryn.—gwrychyn.

TENÉBROUS, (adj.) tywyll.

TENEBRÓSITY, (ſub.) tywyllwch, tywyllni.

TÉNEMENT, (ſ.) tyddyn, ſyddyn.

TÉNET, (ſ.) barn, tŷb; egwyddor.

TÉNNIS-*ball*, (ſ.) parled.

TÉNON, (ſ.) tenwn a el yn y rhwyll.

TÉNOR, (ſ.) yſtyr, amcan, meddwl.—llais mewn cerddoriaeth.

TENSE, (ſ.) amſer.

TÉNSION, (ſ.) yſtyniad.

TENT, (ſ.) gwerſyll, llueſt, pabell, bwth.—goreth, gwarath.

TÉNTER, (ſ.) deintur.

TENTH, (adj.) degfed.

TENÚITY, (ſ.) teneuder, eiddilwch, meindra.

TÉNURE, (ſ.) yr ammod ar ba un y mae un yn meddiannu tyddynod.

TÉPID, (adj.) claear.

TEPÍDITY, (ſ.) claearineb, claearder

TERCE, (ſ.) meſur o ddau alwyn a deugain o wîn.——traian.
TERGIVERSÁTION, (ſ.) Edr. *Shift*.
TERM, (ſ.) ammod.—gair.—amſer terfynedig, pryd, tymmor.
To TERM, (v.a.) galw, enwi.
TÉRMAGANT, (adj.) Edr. *Turbulent*.
To TÉRMINATE, (v.) terfynu, gorphen, diweddu, dibennu.
TERMINÁTION, (ſ.) terfyniad, diwedd gair.
TÉRRACE, (ſ.) bryn, bencyn.
TERRÁQUEOUS, (adj.) o ddaear a dwfr.
TÉRRENE, (adj.) daearol.
TÉRREOUS, (adj.) o ddaear.
TERRÉSTRIAL, (adj.) daearol.
TÉRRIBLE, (adj.) ofnadwy, dychrynllyd, erchyll, cethin.
TÉRRIBLENESS, (ſ.) erchyllrwydd, dychryndod.
TÉRRIER, (ſ.) ebill, taradr.—ci i hela creaduriaid tan y ddaear.
TERRÍFIC, (adj.) ofnadwy.
To TÉRRIFY, (v.a.) brawychu, dychrynu, peri ofn, tarfu.
TÉRRITORY, (ſ.) tiriogaeth.
TÉRROR, (ſ.) dychryn, ofn, braw, arſwyd.
TÉRTIAN, (adj.) bob trydydd dydd.
TEST, (ſ.) prawf, profiad, holiad, moddion prawf.
TÉSTAMENT, (ſ.) llythyr cymmun, ewyllys ddiweddaf, teſtment.
TESTAMÉNTARY, (adj.) cymmunnol.
TÉSTATE, (adj.) wedi gwneuthur ei deſtment.
TESTÁTOR, (ſ.) cymmunnwr.
TESTÁTRIX, (ſ.) cymmunwraig.
TÉSTED, (adj.) wedi ei dyſtiolaethu, wedi broſi trwy dyſtion, dilys.
TÉSTER, (ſ.) pen gwely.—chwecheiniog.
TESTIFICÁTION, (ſ.) tyſtiad, profiad trwy dyſtion.
TÉSTIFIER, (ſ.) tyſtiwr.
To TÉSTIFY, (v.a.) tyſtiolaethu, tyſtio, cadarnhau.
TESTIMÓNIAL, (ſ.) tyſtiolaeth ymddygiad un mewn ysgrifen.
TÉSTIMONY, (ſ.) tyſtiolaeth.
TÉSTINESS, (ſ.) Edr. *Moroſeneſs*.
TÉSTY, (adj.) Edr. *Moroſe*.
TÉTHER, (ſ.) rhaff wrth ba un y clymmir ceffyl mewn cae.
To TÉTHER, (v.a.) rhaffo ceffyl.
TÉTRARCH, (ſ.) tetrarch, llywodraethwr pedwaredd rhann o deyrnas.
TÉTRARCHATE, } (ſ.) llywodraeth
TÉTRARCHY, } pedwaredd rhann teyrnas.
TÉTTER, (ſ.) tarddwreinyn, dwfrwreinyn, crachen, tarwden.
To TEW (v.a.) Edr. *to toil*.
TEXT, (ſ.) teſtun, gwers.
TÉXTILE, (adj.) gwauedig.
TÉXTUARIST, } (ſ.) un cyfarwydd
TÉXTUARY, } yn yr yſgrythur.
TÉXTURE, (ſ.) gwead, plethiad.—dull, gwedd, anſawdd, cyfanſoddiad.

T H

THAN, (adv.) nâ, nag.
To THANK, (v.a.) diolch, rhoddi diolch.
THÁNKFUL, (adj.) diolchgar, diolchus.
THÁNKFULNESS, (ſub.) diolchgarwch.
THÁNKLESS, (adj.) anniolchgar.
THANKS, (ſub.) diolch, diolchgarwch.
THANKSGÍVING, (ſ.) diolch.
THAT, (pron.) hwnnw, hynny, hwn.
THAT, (conj.) mal, fal, rhag.
THATCH, (ſ.) tô, tô gwellt.
To THATCH, (v.a.) toi.
To THAW, (v.n.) dadlaith, dadmeru, meirioli.
THAW, (ſ.) dadlaith, dadleithad.
THE, (art.) y, yr.
THÉATRE, (ſ.) chwarwyfa, chwareudy, *theatr*.
THÉATRIC, } (adj.) a berthyn i'r
THÉATRICAL, } *theatr*.
THEE, (pron.) ti.
THEFT, (ſ.) lladrad.
THEIR, (pron. plur.) eu, eiddynt.
THEM, (pron. plur.) hwy, hwynt, hwynthwy.
THEME, (ſub.) teſtun.——y gair gwreiddiol oddiwrth ba un y mae geiriau eraill yn deilliaw.
THEMSÉLVES, (pron.) eu hunain.

THEN,

THEN, (adv.) y pryd hynny, yna, ar hynny, gwedi hynny.
THENCE, (adv.) oddi yno, o hynny allan.—o herwydd hynny.
THEOCRACY, (ſub.) llywodraeth ddwyfol.
THEODOLITE, (ſ.) offeryn i feſuro uchder.
THEOLOGICAL, (adj.) dewinyddiaethol, dwyfol.
THEOLOGIST, (ſ.) difeinydd, dewin.
THEOLOGY, (ſub.) difeinyddiaeth, dewinyddiaeth.
THEOREM, (ſ.) teſtun o wirionedd cyfaddefedig.
THEORETIC, THEORETICAL, (adj.) Edr. *Speculative.*
THEORY, (ſ.) gwybodaeth anymarferol.—treſn, amcan.
THERE, (adv.) yno, accw, yna, llyna.
THEREABOUT, THEREABOUTS, (adj.) gerllaw, oddi amgylch yno.
THEREFORE, (adv.) am hynny, gan hynny, o achos, o herwydd hynny.
THEREUPON, (adv.) ar hynny, yn union.
THERIACAL, (adj.) Edr. *Medicinal.*
THERMOMETER, (ſ.) offeryn i feſur graddau gwres.
THESE, (pron. plu. of *this*) y rhai'n.
THEY, (pron. plu.) hwy, hwynt.
THESIS, (ſ.) teſtun, dadl.
THICK, (adj.) tew, brâs, braiſg, praff; aml.
To THICKEN, (v.a.) tewhau, gwneuthur yn dew.
THICKET, (ſ.) pryſglwyn, dyryslwyn, pryſgle.
THICKNESS, (ſ.) tewder, breiſgrwydd.
THIEF, (ſ.) lleidr.
To THIEVE, (v.n.) lladratta.
THIEVERY, (ſ.) lladrad.
THIEVISH, (adj.) lladronaidd, lladradaidd.
THIGH, (ſ.) morddwyd.
THILL, (ſub.) trawſt menn, llâth menn.
THIMBLE, (ſ.) gwniadur.
THIN, (adj.) teneu, cûl, eiddil, main.
To THIN, (v. a.) teneuhau, gwneuthur yn deneu.
THINE, (pron.) tau, eiddot, einot.
THING, (ſ.) peth.
To THINK, (v.n.) meddylio, tybied, ſyniaid, myfyrio, bwriadu, amcanu.
THINKING, (ſ.) myfyriad.
THINNESS, (ſ.) teneuder, eiddilwch.
THIRD, (adj.) trydydd.
To THIRL, (v. a.) Edr. *to drill.*
THIRST, (ſ.) ſyched.
To THIRST, (v.n.) ſychedu.
THIRSTY, (adj.) ſychedig.
THIRTEEN, (adj.) tri ar ddeg.
THIRTY, (adj.) deg ar hugain.
THIS, (pron.) hwn, hon, hyn.
THISTLE, (ſ.) yſgallen.
THISTLY, (adj.) yſgallog.
THITHER, (adv.) yno, i'r fan honno.
THITHERTO, (adv.) hyd yma.
THONG, (ſ.) carrai.
THORN, (ſ.) draenen.
THORNY, (adj.) dreiniog.
THOROUGH, (adj.) cyflawn, perffaith, perffeithgwbl, hollol.
THOSE, (pron. plu. of *that.*)
THOU, (pron.) ti, di, tydi.
THOUGH, (conj.) pe rhon, er, er hynny.
THOUGHT, (ſ.) meddwl, bryd, myfyrdod.
THOUGTFUL, (adj.) meddyſgar, yſtyriol.
THOUGHTFULNESS, (ſ.) yſtyriaeth, myfyrdod.
THOUGHTLESS, (adj.) anyſtyriol, eſgeulus.
THOUSAND, (adj.) mîl.
THRALL, THRALDOM, (ſub.) caethiwed, gwaſanaeth.
To THRASH, (v.a.) dyrnu, ffuſtio.
THRASHER, (ſ.) dyrnwr.
THRASHINGFLOOR, (ſ.) llawr dyrnu, llawr yſgybor.
THRASONICAL, (adj.) ymffroſtgar.
THREAD, (ſ.) edau, edef, edefyn.
To THREAD, (v. a.) dodi edefyn mewn nodwyd, dodi ar ddefyn.
THREAT, (ſ.) bygythiad.
To THREATEN, (v. a.) bygwth, bygylu.
THREATENING, (ſ.) bygythiad, bygwl.
THREE, (adj.) tri, tair.

THREEFÓLD, (adj.) tridyblyg.
THRÉSHOLD, (ſ.) trothwy.
THRICE, (adv.) tair gwaith.
THRIFT, (ſub.) cynnildeb; budd, llês, mantais.
THRÍFTINESS, (ſ.) Edr. *Frugality.*
THRÍFTY, (adj.) cymmhedrol, didraul, cynnil, diwyd.
To THRILL, (v.) Edr. *to drill.*
To THRIVE, (v.n.) llwyddo, tyccio, ffynnu, cynnyddu, prifio, cyfoethogi.
THROAT, (ſ.) cêg, breuant.
To THROB, (v. n.) dyheu, darwain, curo.
THROB, (ſ.) dyhead.
THROE, (ſ.) dolur eſgor.
THRONE, (ſub.) gorſedd, gorſeddfaingc, teyrngadair, pall.
THRONG, (ſ.) Edr. *Crowd.*
To THRONG, (v.n.) Edr. *to crowd.*
THRÓTTLE, (ſ.) cêg.
To THRÓTTLE, (v.a.) tagu, llindagu.
THROUGH, (prep.) trwy, drwy.
THRÓUGHOUT, (adv.) trwy, o'r pen i'w gilydd, hyd y diwedd.
To THROW, (v. a.) taflu, ergydio, bwrw.
THROW, (ſ.) tafliad, ergyd.
THRUMP, (ſ.) eddi.
To THRUMP, (v. a.) chwareu yn ddrwg ar offeryn cerdd.
THRUSH, (ſ.) bronfraith, treſglen.—clefyd cyffredin ar blant ieuaingc.
To THRUST, (v. a.) gwthio, gyrru.
THRUST, (ſ.) gŵth.
THUMB, (ſ.) bawd, bawdfys.
To THUMP, (v.a.) pwyo, curo.
THUMP, (ſ.) pwyad, ergyd.
THÚMPER, (ſ.) pwywr.—celwyddwr.
THÚNDER, (ſ.) taran, twrf, tyrfau.
To THÚNDER, (v. n.) taranu.
THÚNDERBOLT, (ſ.) mellten.
THÚNDERCLAP, (ſ.) twrf.
THÚRSDAY, (ſ.) dydd iau.
THUS, (adv.) yn llyn, fel hyn, yn y cyfryw fodd.
To THWACK, (v. a.) Edr. *to bang.*
THWART, (adj.) croes, gwrdraws, trofaus.
To THWART, (v. a.) croeſi, gwrthwynebu.
THY, (pron.) dy, tau.

THYSÉLF, (pron. recip) dy hunan.
THYME, (ſ.) teirn.

T I

TIÁR, TIÁRA, (ſ.) talaith, penwiſg.
To TICE, (v. a.) Edr. *to entice.*
TICK, (ſ.) yſgôr, coel am ddyled.—llau cŵn a defaid. —tic-gwely.
To TICK, (v.a.) yſgori, Edr. *to truſt.*
TÍCKET, (ſ.) ticced, nôd, arwydd.
To TÍCKLE, (v.a.) gogleiſio.
TÍCKLISH, (adj.) a goglais arno.
TÍCKLISHNESS, (ſ.) goglais.
TID, (adj.) mwythus, deſtl.
To TÍDDLE, (v.a.) Edr. *to fondle.*
TIDE, (ſ.) amſer, pryd. —llanw a thrai 'r môr. —— rhyferthwy, llif.
TÍDINGS, (ſ.) newyddion, copinod.
TÍDY, (adj) cryno, tacclus, trwſiadus; amſerol; parod.
To TIE, (v.a.) cylymmu, rhwymo.
TIE, (ſ.) cwlwm, rhwymyn.
TÍER, (ſ.) rhês, rhengc.
TÍERCE, (ſ.) Edr. *Terce.*
TIFF, (ſub.) llynn, diod. —digoſaint.
To TIFF, (v.n.) digio; ymgyppryſ.
TÍGER, (ſ.) teigr.
TIGHT, (adj.) tynn, cryno.—gweddus.
To TÍGHTEN, (v.a.) tynnhau.
TÍGHTNESS, (ſ.) tynnder, cyfyngder.
TÍGRESS, (ſ.) teigres.
TIKE, (ſ.) Edr. *Clown.*
TILE, (ſ) peithynen, carreg-do.
To TILE, (v.a.) peithynu, toi â cherrig.
TILL, (ſ.) blwch.
TILL, (conj.) hŷd.
To TILL, (v. a.) llafurio tîr, diwyllio tir.
TÍLLAGE, (ſ.) llafuriad, llafurwriaeth, amaethiad, gwrteithiad.
TILT, (ſ.) llueſt; gorchudd.—gwth, hwpp.
To TILT, (v.) goſtwng, gogwyddo, troi ar y naill ochr.
TILTH, (ſ.) Edr. *Huſbandry.*
TÍMBER, (ſ.) coed-defnydd, pren.
TÍMBREL, (ſ.) tympan.

TIME,

TIME, (ſ.) amſer, tymmer, tymp, pryd.
TÍMELY, (adj.) amſerol.
TÍMID, (adj.) ofnus, ofnog.
TIMÍDITY, (ſub.) ofnogrwydd, gwylder
TÍMOROUS, (adj.) ofnus.
TÍMOROUSNESS, (ſ.) ofnogrwydd.
TIN, (ſ.) alcam, *Exec.* xxii. 18.
TINCT, (ſ.) lliw, amliw.
TÍNCTURE, (ſ.) lliw.
TÍNDER, (ſ.) goſgymmon.
TINE, (ſ.) dant ogeid.
To TINGE, (v.a.) lliwio, llifo, yſtaenio.
To TÍNGLE, (v.n.) tingcian, tingcio.
To TINK, (v.n.) tingcian.
TÍNKER, (ſ.) eurych, gof prês.
To TÍNKLE, (v.n.) tingcian.
TÍNSEL, (ſ.) yſnoden neu frethyn diſglair, *Fig.* diſgleirdeb.
TINT, (ſ.) lliw.
TÍNY, (adj.) bychan, eiddil.
TIP, (ſ.) topp, pen.
TÍPPET, (ſ.) peth i wiſgo oddiamgylch gwddf.
To TÍPPLE, (v.n.) diotta.
TÍPPLER, (ſ.) Edr. *Sot.*
TÍPSTAFF, (ſ.) rhingyll.
TÍPSY, (adj.) lledfeddw.
TÍPTOE, (ſ.) pen byſedd traed.
TIRE, (ſ.) rhês, rhengc.—— penwiſg.
To TIRE, (v.a.) blino, lluddedu.
TÍRESOME, (adj.) blinderus, blin.
TÍRESOMENESS, (ſ.) lludded, blinder.
TÍSSUE, (ſ.) brethyn ag aur neu arian wedi ei blethu trwyddo.
TIT, (ſ.) ceffyl bychan.—benyw.
TITHE, (ſ.) degwm.
To TITHE, (v.a.) degymmu.
TÍTHER, (ſ.) degymmwr.
TÍTHING, (ſ.) degymmiad.
TITILLÁTION, (ſ.) gogleiſiad.
TÍTLE, (ſ.) titl; enw. ——hawl, iawn.
To TÍTLE, (v.a.) galw, enwi, rhoi titl.
To TÍTTER, (v. n.) chwerthin yn ddirgel.
TÍTTLE, (ſ.) Edr. *Point.*
TÍTULAR, (adj.) enwol, yn unig ddewn enw.

To, (prep.) at, i, tu ag at.
TOAD, (ſ.) llyffant.
TOÁDSTOOL, (ſub.) bwyd llyffant, madarchen.
To TOAST, (v.a.) pobi, craſu.—— enwi iechyd i'w yfed.
TOAST, (ſ.) bara wedi ei graſu.—iechyd.
TOBÁCCO, (ſub.) tybacco, myglys, ffwgws.
TOBÁCCONIST, (ſ.) gwerthwr tybacco.
TOD, (ſ.) llwyn.
TOD *of wool*, wyth pwys ar hugain.
TOE, (ſ.) bys troed.
TOFT, (ſub.) gallt o goed.—lle bu tŷ.
TOGÉTHER, (adv.) ynghyd; gyd a'r gilydd, ar un waith.
To TOIL, (v. n.) llafurio, ymdrafferthu, poeni, ymboeni.
TOIL, (ſ.) llafur, poen, trafferth. ——rhwyd, magl.
TOÍLSOME, (adj.) llafurus, trafferthus, poenus.
TOÍLSOMENESS, (ſ.) trafferth, llafur.
TÓKEN, (ſ.) nôd, arwŷdd, marc.
To TOLE, (v.a.) tynnu yn raddol.
TÓLERABLE, (adj.) goddefol, goddefadwy.
TÓLERABLY, (adv.) yn weddol, yn ganolig.
TÓLERANCE, (ſ.) dioddefgarwch.
To TÓLERATE, (v.a.) goddef, dioddef, cyd-ddwyn; canniattau.
TOLERÁTION, (ſ.) dioddefiad, goddefiad, canniattâd.
TOLL, (ſub.) treth, ardreth, toll, tal.
To TOLL, (v. n.) tolli, trethu.—— (act.) canu cloch, canu clych.
TOLL-BOOTH, (ſ.) tollfa.—carchar.
TOLL-GATHERER, (ſ.) tollwr.
TOMB, (ſ.) gwyddfa, maen bedd.
TOME, (ſ.) llyfr.
TON, (ſ.) tunnell.
TONE, (ſ.) tôn, accen, llais.
TONG, (ſ.) pin bwccl.
TONGS, (ſ.) gefail.
TONGUE, (ſ.) tafod; tafodiaith.
TÓNGUELESS, (adj.) didafod.
TÓNGUEPAD, (ſ.) baldorddwr.

TÓNNAGE, (ſ.) Ed. *Tunnage.*
TÓNSURE, (ſ.) encifiad, gwcilcifiad.
TOO, (adv.) hefyd.——rhy.
TOOL, (ſ.) offeryn, arf.
TOOTH, (ſ.) dant.
To TOOTH, (v.a.) deintio, bylchu.
TOOTHÁCHE, (ſ.) y ddanoodd.
TÓOTHED, (adj.) danheddog, bylchiog.
TÓOTHLESS, (abj.) diddanneedd.
TÓOTHSOME, (adj.) blaſus, moethus.
TOP, (ſ.) topp, coppa, pen, coryn, crib.
To TOP, (v.) rhagori.—gorchuddio y coppa.—toccio, torri brig.
TÓPORCH, (ſub.) llywodraethwr gwlâd.
TÓPAZ, (ſ.) tophas, maen gwerthfawr o liw yr aur.
TÓPMOST, (adj.) uchaf, pennaf.
To TOPE, (v. n.) yfed hyd ormoddedd.
TÓPER, (ſ.) meddwyn.
TÓPHET, (ſ.) tophet.—uffern.
TÓPICAL, (adj.) lleol; cyffredinol.
TÓPIC, (ſ.) pen cyffredinol, teſtun.
TÓPOGRAPHY, (ſub.) hanes lle, gwlâd, neu deyrnas.
TÓPPING, (adj.) rhagorol, hynod, nodedig.
TÓPSYTURVY, (adv.) bendramwnwgl.
TOR, (ſ.) twrr.
TORCH, (ſ.) lamp, ffagl, *Nah.* ii. 3. *Zec.* xii. 6.
TÓRMENT, (ſ.) poen, poenau, artaith, dialedd.
To TÓRMENT, (ſ.) poeni, arteithio; gofidio, blino.
TORMÉNTOR, (ſ.) poenwr, arteithiwr; gofidiwr,
TORNÁDO, (ſ.) Edr. *Hurricane.*
TÓRPID, (adj.) muſgrell, ſwrth.
TÓRPITUDE, (ſ.) muſgrelli, ſyrthni.
TÓRPOR, (ſ.) marweidd-dra, merwindod.
TÓRRENT, (ſ.) cornant, ffrwd.
TÓRRID, (adj.) craſboeth, poeth.
TORT, (ſ.) drwg, niwaid.
TÓRTOISE, (ſub.) melwioges, môr falwen, llyffant, *Lef.* xi. 29.
TÓRTUOUS, (adj.) gwyrgam, torchog.
TÓRTURE, (ſ.) poen, artaith, dialeddboen.
To TÓRTURE, (v.a.) poeni, arteithio; blino, gofidio.
TÓRTURER, (ſ.) Edr. *Tormentor,*
TÓRVITY, (ſub.) cuchiawgrwydd, gŵg, farnugrwydd, blyngder.
TÓRVOUS, (adj.) cuchiog, gygus, blwng, ffyrnig ei olwg.
To TOSE, (v. a.) eribo gwlan.
To TOSS, (v.a.) bwrw, taflu, ergydio.
TOSS, (ſ.) tafliad, ergyd.
TÓSSPOT, (ſ.) meddwyn, gloddeſtwr.
TÓTAL, (adj.) cyflawn, hollol.
TOTÁLITY, (ſ.) y cyfan, y cwbl, ſwm.
TOTÁLLY, (adv.) yn gyflawn, yn hollol.
To TÓTTER, (v.a.) hongcian, bwhwman.
TÓTTY, (adj.) ſigledig.
To TOUCH, (v. a.) cyffwrdd, cyhwrdd.——profi.—teimlo.
TOUCH, (ſ.) teimlad, cyffwrdd.
TOÚCH-HOLE, (ſ.) twll mewn baril dryll i'r tân fyned o'r badell at y powdr yn y faril.
TOÚCHINESS, (ſ.) Edr. *Peeviſhneſs.*
TOÚCHSTONE, (ſub.) maen prawf, dangoſeg.
TÓUCHY, (adj.) Edr. *Techy.*
TOUGH, (adj.) gwydn; ſyth; anhydyn.
TOÚGHNESS, (ſ.) gwydnder.
TOUR, (ſub.) taith, ſiwrnai, tro, crwydr.
TOÚRNAMENT, (ſ.) Edr. *Tilt.*
TOW, (ſ.) carth.
To TOW, (v.a.) lluſgo wrth raff.
TOWÁRDS, (adv.) tu ag at, tu a.
TÓWARD, (adj.) parod.
TOWÁRDLINESS, } (ſub.) parod-
TOWÁRDNESS, } rwydd.
TÓWEL, (ſ.) llawlian, lliain ſychu, cedaflen.
TÓWER, (ſ.) twr, caſtell.
To TÓWER, (v.n.) dyrchafu.
TOWN, (ſ.) tref.
TÓXICAL, (adj.) gwenwynllyd.
TOY, (ſ.) gwâg bêth, tegan; arabedd.

To TOY, (v.n.) chwarae.
TOYISH, (adj.) anllad, drythyll.

T R

To TRACE, (v. n.) olrhain, dilyn ol, canlyn.
TRACE, (ſ.) adrywedd, ôl, briſg.
TRACK, (ſ.) adrywedd, ôl, ôl troed. —ffordd, troedffordd.
TRACT, (ſ.) ardal, gwlâd.—traethawd; beiſciad.
TRÁCTABLE, (adj.) Edr. *Manageable.*
TRÁCTABLENESS, (ſub.) llarieiddra, hynawſedd, addfwynder, arafwch.
TRACTÁTE, (ſ.) traethawd, llyfran.
TRADE, (ſ.) crefft, galwedigaeth, celfyddyd.
To TRADE, (v.n.) maſnach.
TRADÍTION, (ſ.) traddodiad.
TRADÍTIONAL, } (adj.) traddod-
TRADÍTIONARY, } iadol.
To TRADÚCE, (v.a.) enllibio, hortio, goganu, gwaradwyddo.
TRADÚCEMENT, (ſ.) gwarth, enllib.
TRADÚCER, (ſ.) enllibiwr.
TRADÚCTION, (ſ.) troſglwydd.—enllib, gwarth.
TRÁFFICK, (ſ.) maſnach, marſlandaeth, cyweithas.
To TRÁFFICK, (v.n.) maſnach, marſianda, negeſeua.
TRÁGEDY, (ſ.) chwarae yn goſod allan futterion o drafferth ac ymryſſon a galanaſtra.—rhyw ddigwyddiad galarus.
TRÁGIC, } (adj.) galarus, trall-
TRÁGICAL, } odus, dychrynllyd.
To TRAIL, (v.) hela wrth y briſg. ——lluſgo.
TRAIL, (ſ.) briſg.----llûſg, godrau gwiſg.
To TRAIN, (v.a.) addyſgu, hyfforddi. ——lluſgo.
TRAIN, (ſ.) goſgordd, gweinyddion, tyrfa o ganlynwyr llu.—pwrfil, godre gwiſg.—cynffon aderyn.
TRAINBÁND, (ſ.) pwrfill. Eds. *Militia.*
TRAIPSE, (ſ.) Edr. *Slut.*
TRÁITOR, (ſ.) bradwr, bradychwr.
TRAÍTOROUS, (adj.) bradog, bradus, bradychus.
TRALATÍTIOUS, (adj.) Edr. *Metaphorical.*
TRÁMMEL, (ſ.) rhwyd.—llyfeth-eiriau ceffyl.
To TRAMPLE, (v.a.) ſathru, mathru, ſengi.
TRANCE, (ſ.) llewyg, gloes.
TRANQUIL, (adj.) heddychol, tawel, eſmwyth.
TRANQUÍLITY, (ſ.) tawelwch, llonyddwch, eſmwythder, heddwch.
To TRANSÁCT, (v. a.) gwneuthur, terfin.
TRANSÁCTION, (ſ.) negeſwriaeth, gwaith, achos yn cael ei ddwyn yn y blaen.
To TRANSCÉND, (v. a.) rhagori, goruchddyrchafu.
TRANSCÉNDENCE, } (ſub.) rhagor-
TRANSCÉNDENCY, } iaeth, goruchafiaeth.
TRÁNSCENDENT, (adj.) dyrchafedig, rhagorol.
To TRANSCRÍBE, (v. a.) ysgrifennu allan o beth, coppio.
TRANSCRÍBER, (ſ.) coppiwr.
TRÁNSCRIPT, (ſub.) dadyſgriſen, coppi.
TRANSELEMENTÁTION, (ſ.) cyfnewidiad elfennau.
To TRANSFÉR, (v. a.) Edr. *to convey.*
TRÁNSFIGURÁTION, (ſ.) gweddnewidiad, dull newidiad.
To TRANSFÓRM, (v. a.) gweddnewidio.
TRANSFORMÁTION, (ſ.) gweddnewidiad.
To TRANSFÚSE, (v. a.) tywallt o'r naill leſtr i'r llall.
To TRANSGRÉSS, (v. a.) troſedda.
TRANSGRÉSSION, (ſ.) troſedd, troſeddiad, camwedd.
TRANSGRÉSSOR, (ſ.) troſeddwr.
TRÁNSIENT, (adj.) trangcedig, darfodedig, dibara, byrr.
TRÁNSIENTNESS, (ſ.) darfodedigrwydd.
TRÁNSIT, (ſub.) mynediad planed dros, neu'n agos heibio i ſeren ſefydlog.
TRANSÍTION, (ſ.) mynediad troſoddi, ſymmudiad, mynediad o un peth i'r llall.

TRÁN-

TRÁNSITORY, (adj.) darfodedig, trangcedig, dibara.
TRÁNSITORINESS, (ſ.) darfodedigrwyd.
To TRANSLÁTE, (v.a.) troſglwyddo, cyfeithu.
TRANSLÁTION, (ſ.) cyfeithiad, troſglwydd, troſglwyddiad.
TRANSLÁTOR, (ſ.) cyfeithydd.
TRANSMÁRINE, (adj.) tramor, tu hwnt i'r môr.
TRANSMIGRÁTION, (ſ.) erchywynedigaeth, ſymmudiad o un lle neu gyflwr, i le neu gyflwr arall.
TRANSMI'SSION, (ſ.) troſglwyddiad.
TRANSMÚTABLE, (adj.) a ellir ei gyfnewid.
TRANSMUTÁTION, (ſ.) newidiad.
To TRANSMÚTE, (v. a.) newid, cyfnewid.
TRÁNSOM, (ſ.) trawſfilath.
TRANSPÁRENCY, (ſ.) tryloywder, diſgleirdeb.
TRANSPÁRENT, (adj.) tryloyw, diſglair.
To TRANSPÍRE, (v.) bwrw allan yn darth.—myned yn gyhoeddus.
To TRANSPLÁNT, (v. a.) adblannu, ailblannu.
To TRANSPÓRT, (v.a.) troſglwyddo; deol, gyrru o'r wlad.—dodi mewn llewyg.
TRÁNSPORT, (ſ.) cynnwrf meddwl. —llewyg, bloddeſt, crychnaid gan lawenydd.—gwr deol, herwr.—llong i ddwyn milwyr ac arlwy rhyfel o un lle i'r llall.
TRANSPORTÁTION, (ſ.) troſglwyddiad.—alltudiaeth, herwriaeth.
TRANSPÓSAL, (ſ.) traws-ſymmudiad.
To TRANSPÓSE, (v.a.) traws-ſymmud, newid trefn peth.
TRANSPOSÍTION, (ſ.) traws-ſymmudiad, cyfnewidiad trefn.
To TRANSUBSTÁNTIATE, (v. a.) traws-ſylweddu, cyfnewid ſylwedd.
TRANSUBSTANTIÁTION, (ſ.) traws-ſylweddiad.
TRANSVÉRSE, (adj.) traws, croes.
TRAP, (ſ.) magl, croglath, annel, yſleppan, telm.
To TRAP, (v. a.) Edr. *to entrap.*
TRAPPINGS, (ſub.) ſeirch, addurn meirch.
TRASH, (ſ.) yſgarthion, yſgubion, ſothach, ſorod.
TRÁSHY, (adj.) llawn ſothach, diſedd, diddefnydd.
To TRAVAIL, (v. n.) llafurio, trafaelu, poeni; eſgor.
TRÁVAIL, (ſ.) poen, trafael, llafur. —gwewyr eſgor.
To TRAVEL, (v. n.) teithio, ymdaith, ſiwrnela, peregrindotta.
TRÁVEL, (ſ.) taith.
TRÁVELS, (ſ.) teithoedd.
TRÁVELLER, (ſub.) teithiwr, ymdeithydd.
TRÁVERSE, (adv.) Edr. *Athwart.*
To TRÁVERSE, (v) croeſi, gwrthwynebu.—crwydro.
TRÁVESTY, (adj.) Edr. *Ridiculus.*
TRAY, (ſ.) noe.
TRÉACHEROUS, (adj.) Edr. *Perfidious.*
TRÉACHERY, (ſ.) Edr. *Perfidy.*
TRÉACLE, (ſ.) triagl.
To TREAD, (v.) mathru, ſathru, ſengi, troedio.
TRÉADLE, (ſ.) troedlath, troedlas. —rhith ceiliog.
TRÉASON, (ſ.) brâd, bradwriaeth yn erbyn brenhin neu wladwriaeth.
TRÉASONABLE, (adj.) bradwraidd.
TRÉASURE, (ſ.) tryſor, curgrawn, ſwllt.
To TRÉASURE, (v. a.) tryſori.
TRÉASURER, (ſ.) tryſorwr.
TRÉASURERSHIP, (ſub.) tryſorwriaeth.
TRÉASURY, (ſ.) tryſordy, ſyllty.
To TREAT, (v.) ſefydlu.——trin; traethu; ymddiddan.-rhoi gwlêdd, arfolli, rhoi bwyd neu ddiod.
TREAT, (ſub.) gwlêdd roddedig, rhodd.
TRÉATISE, (ſ.) traethawd.
TRÉATMENT, (ſ.) Edr. *Uſage.*
TRÉATY, (ſ.) cyngrair, cyfammod.
TRÉBLE, (adj.) tridyblyg, trebl.
To TRÉBLE, (v.a.) treblu.
TRÉBLE, (ſ.) trebl.
TREE, (ſ.) pren.
TRÉFOIL, (ſ.) meillionen tair dalen.
To TRÉMBLE, (v.n.) crynu, dychrynu.

TREMÉNDOUS,

TREMÉNDOUS, (adj.) dychrynllyd, ofnadwy.
TRÉMOR, (ſ.) cryn, crynſa, dychryn, ofn, braw.
TRÉMULOUS, (adj.) ofnadwy, crynedig, dychrynedig.
TRENCH, (ſub.) clawdd, gwawl, rhigol.
TRÉNCHER, (ſ.) diſglan bren i dorri bwyd arni.
To TREND, (v.n.) Edr. *to Tend.*
TREPÁN, (ſ.) croglath, magl.——offeryn llawfeddyg i drin penglog drylliedig.
To TREPÁN, (v.a.) torri â'r cyfryw offeryn.—maglu, rhwydo.
TRÉPID, (adj.) crynedig, dychrynedig, ſynn.
TREPIDÁTION, (ſ.) cryndod, dychryndod.
To TRÉSSPASS, (v.a.) troſeddu.
TRÉSSPASS, (ſ.) troſedd.
TRÉSSES, (ſ) cydynau gwallt.
TRÉSTLE, (ſ.) atteg bwrdd.
TRET, (ſub.) lwfiedigaeth mewn pwyſau ar gyfrif difad neu ſorod a fo mewn peth.
TRÉVET, (ſ.) trybedd, amdan.
TRÍAD, (ſ.) tri, y tri, Trindod.
TRÍAL, (ſ.) prawf, profiad; profedigaeth.—hawl, cynghawſedd, barn, holiad achos.
TRIÁNGLE, (ſ.) teirongl.
TRIÁNGULAR, (adj.) teironglog.
TRIBE, (ſ.) llwyth, tylwyth.
TRIBULÁTION, (ſ.) gorthrymder, helbul, blinfyd, cyſtudd.
TRIBÚNAL, (ſ.) brawdle, gorſeddbarn, hawlfaingc.
TRÍBUNE, (ſ.) nawddwr y cyffredin, ſwyddog ym myſg y Rhufeiniaid a ddewiſia'r werin.
TRÍBUTARY, (adj.) trethol, teyrngedol.
TRÍBUTE, (ſub.) teyrnged, trêth, ardreth.
TRICE, (ſ.) munud, diddim amſer.
TRICK, (ſub.) dichell, yſtryw, yſtrangc, prangc.
To TRICK, (v.a.) dichellu, twyllo.
TRÍCKING, (ſ.) addurn, trwſiad.—dichell, twyll.
To TRÍCKLE, (v.n.) diferu, dafnu, defnynnu.
TRÍDENT, (ſ.) teirnwialen dair daint *Neptun*; forch dri ewin.
TRIÉNNIAL, (adj.) teirblwydd.
TRÍER, (ſ.) profwr.
To TRÍFLE, (v. n.) ofera, gwneuthur coeg-bethau.
TRÍFLE, (ſub.) anober, arabedd, ffiloreg, gwaelbeth, oferedd.
TRÍFORM, (adj.) teirffurf, a fo dridull.
TRÍGGER, (ſ.) yſtordyn.
TRÍGON, (ſ.) Edr. *Triangle.*
TRIGÓNAL, (adj.) Edr. *Triangular.*
TRIGONÓMETRY, (ſub.) celfyddyd meſur trionglau.
TRILÁTERAL, (adj.) triochrog.
To TRILL, (v. n.) diferu, defnynnu.—Edr. *to Quaver.*
TRILL, (ſ.) cryniad llais.
TRIM, (adj.) tacclus, trwſiadus, hardd.
To TRIM, (v. a.) tacclu, trwſio, harddu, addurno.—toccio, eſſilio.
TRIM, (ſ.) trwſiad.—cyflwr.
TRÍMMINGS, (ſ.) addurn dillad, &c.
TRINE, (adj.) tri.
TRÍNITY, (ſ.) y Drindod.
TRÍNKET, (ſ.) Edr. *Toy.*
To TRIP, (v.) tripio, llithro, ſyrthio.
TRIP, (ſ.) tripiad, ſyrthiad; cyfeiliornad.—ſiwrnai ferr.
TRIPÁRTITE, (adj.) o dair rhann.
TRIPE, (ſ.) trippa.
TRÍPHTHONG, (ſ.) tair bogail un ſain.
TRÍPLE, (adj.) Edr. *Treble.*
TRÍPLET, (ſ.) tri o'r un rhyw.
TRÍPLICATE, (adj.) tridyblyg.
TRIPLÍCITY, (ſ.) tridybliad.
TRÍPOD, (ſ.) yſtôl dair troed.
TRIPUDIÁTION, (ſ.) dawns, dawnſiad.
TRITE, (adj.) hên, henaidd, wedi treulio.—cyffredin.
TRÍTENESS, (ſ.) cyffredinolrwydd.
TRITURÁTION, (ſ.) maluriad.
TRÍVIAL, (adj.) dibris, cyffredin, gwael.
TRÍUMPH, (ſ.) gorfoledd, digoniant, llawenychiad am fuddugoliaeth.—buddugoliaeth.
To TRÍUMPH, (v. n.) gorfoleddu,

buddugol lawenychu am ſaddugoliaeth; buddugoliaethu.

TRIÚMPHANT, (adj.) buddugoliaethol; gorſoleddus.

TRIÚNE, (ſ.) tri yn un.

To TROLL, (v.) rholio, trolian, troi.—pyſgotta.

TRÓLLOP, (ſ.) dihiren, trwppa.

TROOP, (ſ.) torf, llu, byddin, rhawd.

To TROOP, (v.) crynhoi ynghyd.

TRÓOPER, (ſ.) gwr march, garmwyn.

TROPE, (ſ.) troell ymadrodd.

TRÓPHY, (ſub.) arfau neu bethau eraill a gymmerir oddiwrth y gelynion, ac a oſodir i fynu megis arwydd buddugoliaeth.

TRÓPICS, (ſ.) dau gylch yn y ffurfafen o afngylch 23 o raddau a 30 munud oddi wrth y gogyhydedd tu a'r dehau a'r gogledd, hyd y rhai y cyrch yr haul ddwy waith yn y flwyddyn, ac y dychwel yn ei hol, ſef hyd *Tropic o Cauſer*, y dydd hwyaf yn y flwyddyn, ac hyd *Tropic o Capricorn*, y dydd byrraf yn y flwyddyn.

TRÓPICAL, (adj.) ar ledtro ymadrodd.—yn perthyn i'r ddau *Tropic*.

To TROT, (v. n.) trottian, tuthio, haldian.

TROT, (ſ.) tûth, hald, trot.

TROTH, (ſ.) gwir, gwirionedd.

TRÓTHLESS, (adj.) anwir, celwyddog, bradus.

TRÓTTER, (ſ.) troed dafad.

To TRÓUBLE, (v.a.) cythryblu, blino, cyſtuddio, trallodi.

TRÓUBLE, (ſub.) trallod, blinder, gofid, cyſtudd.

TRÓUBLESOME, (adj.) trallodus, blinderog, helbulus, aflonydd.

TROUGH, (ſ.) cafn.

To TROUNCE, (v.a.) Edr. *to Puniſh*.

TRÓUSERS, (ſ.) llawdr morwr.

TROUT, (ſ.) brithyll.

To TROW, (v. n.) tybio, meddylio.

TRÓWEL, (ſ.) llwyar.

TRÚANT, (ſ.) godechwr, llechwr.

TRÚANT, (adj) ſegur, diog, muſgrell.

To TRÚANT, (v. n.) Edr. *to Loiter*.

TRÚANTSHIP, (ſ.) ſeguryd, muſgrelli.

TRUCE, (ſ.) heddwch dros amſer, cyngrair.

TRUCIDÁTION, (ſ.) lladdiad, dihenyddiad.

To TRUCK, (v.n.) newid, cyfnewid.

TRUCK, (ſ.) newid.

To TRÚCKLE, (v.n.) ymddaroſtwng i.

TRÚCULENT, (adj.) creulon ei olwg, cuchiog.

To TRUDGE, (v.n.) ffullio, ffwdanu.

TRUE, (adj.) gwir, cywir.

TRÚENESS, (ſ.) gwirionedd, ffyddlondeb.

TRULL, (ſ.) puttain.

TRÚLY, (adv.) yn wirioneddol.

TRUMP, (ſ.) utgorn, trwmpls.

TRÚMPERY, (ſ.) gwaelbethau, arabedd; oferchwedlau.

TRÚMPET, (ſ.) utgorn, trwmpls.

To TRUMPET, (v.n.) utganu, cana clod un.

TRÚMPETER, (ſ.) utganwr, trwmplſwr.

TRÚNCHEON, (ſ.) pwt, bryſgyll.

To TRÚNDLE, (v.n.) treiglo, trolian, ymlaen.

TRUNK, (ſub.) glofer, byle.—cyff, boncyff, bonyn.—duryn elephant.—pibell.

TRUSS, (ſ.) gwregys i un a fo wedi torri ei lingig.—Edr. *Pack*.

To TRUSS, (v.a.) gwregyſu.

TRUST, (ſ.) ymddiried, coel, cred.

To TRUST, (v.n.) credu, ymddiried, hyderu, rhoi goglud ar.

TRUSTÉE, (ſ.) un a ymddiriedwyd iddo ryw beth.

TRÚSTER, (ſ.) ymddiriedwr.

TRÚSTINESS, (ſ.) ffyddlondeb, oneſtrwydd.

TRÚSTY, (adj.) ffyddlon, oneſt, a ellir ymddiried ynddo.

TRUTH, (ſ.) gwir, gwirionedd.

To TRY, (v a) profi; holi; cynnyg.

T U

TUB, (ſub.) trwp, trwppa, llachdwn.

TUBE, (ſ.) pibell, chwibol.

TÚBERCLE, (ſ.) chwydd bychan, crugyn.

TÚBEROUS, (adj.) Edr. *Knobby*.

TÚBULAR, } (adj.) yn cau fel
TÚBULOUS, } pibell.

Tuck, (ſ.) twcca.—math ar rwyd.
To **tuck**, (v.a.) gwregyſu, amwregyſu; rhwymo.
Túcker, (ſ.) pannwr.—bronliain.
Túesday, (ſ.) dydd mawrth.
Tuft, (ſ.) tuſw, ſwpp.
To **tug**, (v.) tynnu, lluſgo.—llafurio.
Tug, (ſ.) tynniad.
Tuítion, (ſ.) ceidwadaeth, noddfa, ymgeledd, gofal.
Túmble, (ſ.) cwymp.
To **túmble**, (v.n.) ſyrthio, cwympo.—trio, treiglo, ymdreiglo, amgreinio.
Túmbler, (ſ.) llammwr, llamhidydd.
Túmbrel, (ſ.) cart.
Tumefáction, (ſub.) chwyddâd, chŵydd.
To **túmefy**, (v. a.) chwyddo.
Túmid, (adj.) chwyddedig; uchel.
Túmor, (ſ.) chŵydd, dymchŵydd.—balchder.
Túmoróus, (adj.) chwyddedig.
Túmult, (ſub.) cythrwfl, terfyſg, trallod, ymſwrn, ymffrwſt, godwrdd, cyffro.
Tumúltuary, (adj.) terfyſglyd.
Tumúltuous (adj.) terfyſgus, cyffrous, annhrefnus, ymryſſongar.
Tun, (ſ.) tunnell.
To **tun**, (v.a) barilio.
Túneable, (adj.) Edr. *Harmonious.*
Tune, (ſ.) tôn.
To **tune**, (v. a.) cyweirio tannau, dodi mewn cywair; canu.
Túnefúl, (adj.) cynghaneddol.
Túnic, (ſ.) twyg, hûg, hugan.
Túnicle, (ſ.) croenen.
Túnny, (ſ.) rhyw forbyſg.
Tup, (ſ.) hwrdd.
To **tup**, (v.a.) hyrddio.—cwplyſu.
Túrban, } (ſ.) penwiſg y *Tyrc.*
Túrband, } *iaid.*
Túrbid, (adj.) tew, lleidiog, tomlyd.
Túrbinated, (adj.) Edr. *Spiral.*
Túrbot, (ſ.) math ar byſgodyn.
Túrbulence, } (ſub.) Edr. *Tu-*
Túrbulency, } *mult.*
Túrbulent, (adj.) terfyſgus, cyffrous, cynnhellyd, ymryſongar, afreolaidd, creulon.

Túrcois, (ſ.) rhyw faen gwerthfawr.
Turd, (ſ.) tom, baw.
Turf, (ſ.) tywarchen, mawnen.
Túrfy, (adj.) tywarchog.
Túrgid, (adj.) chwyddedig.
Turgídity, (ſ.) chŵydd.
Turk, (ſ.) Twrc.
Túrky, (ſ.) Twrci.
To **turmoil**, (v.) llafurio'n galed, blino.
To **turn**, (v. a.) troi, dychwelyd, ymchwelyd, newidio; treiglo.—turnio.
Turn, (ſub.) tro; yſtem.—troell, turn.
Túrner, (ſ.) trowr, turnor.
Túrning, (ſ.) tro, troad.
Túrnip, (ſ.) erfinen, meipen.
Túrnpike, (ſ.) tollborth ary ffordd fawr.
Túrnspit, (ſ.) trowr bêr; ci at droi'r bêr.
Túrpentine, (ſ.) terpentin.
Túrret, (ſ.) twr bychan.
Túrtle, (ſub.) turtur, colommen fair.—rhyw byſg.
Túrtledove, (ſ.) colommen.
Tusk, (ſ.) yſgythr.
Tútelage, (ſ.) Edr. *Guardianſhip.*
Tútelar, } (adj.) noddol, ym-
Tútelary, } geleddol.
Tútor, (ſ.) arthraw, addyſgwr.
Tútoress, (ſ.) athrawes.
Tuz, (ſ.) cydyn o wallt.

T W

Twain, (adj.) dau, dwy.
To **twang**, (v.n.) crochleifio.
Twang, (ſ.) crochlais, clegr, trydar; accen.
To **twank**, (v.n.) gwneuthur i leifio.
To **twáttle**, (v.n.) Edr. *to Prate.*
To **tweag**, } (v.a.) Edr. *to Pinch.*
Tweak, }
Tweague, } (ſ.) Edr. *Perplexity.*
Tweak, }
To **twédle**, (v.a.) teimlo yn eſmwyth.
Twézzers, (ſ.) gefail.
Twelfth, (adj.) deuddegfed.
Twélfthday, } (ſub.) gwyl yſt-
Twélfthtide, } wyll.
Twelve, (adj.) deuddeg.

TWÉLVEMONTH, (ſ.) blwyddyn.
TWÉLVEPENCE, (ſ.) ſwllt.
TWÉNTY, (adj.) ugain.
TWÍBIL, (ſ.) Edr. *Halbert*.
TWICE, (adv.) dwy waith.
TWIG, (ſ.) gwialen, blaguryn.
TWÍGGY, (adj.) gwialennog.
TWÍLIGHT, (ſ.) godywyll boran a nos, cyfnos, gogyfnos, çyfllychwr, gorchyfarwy.
TWIN, (ſ.) gefell.
To TWINE, (v.a.) nyddu, cyfrodeddu; dirwyn.
TWINE, (ſ.) edau gyfrodeddog.—tro, cyfrodeddad.
To TWINGE, (v. a.) poeni, blino. Edr. *to Pinch*.
TWINGE, (ſ.) Edr. *Pinch*.
To TWÍNKLE, (v. n.) gwreichioni.—cau ac agor llygad yn fuan.
TWÍNKLING, (ſ.) tarawiad llygad.
To TWIRL, (v.a.) chwildroi, cylchdroi.
TWIRL, (ſ.) cylchdro.
To TWIST, (v.a.) cyfrodeddu, nyddu, ceirſio.
TWIST, (ſ.) cyfrodeddiad.—defyn cyfrodeddog.
To TWIT, (v.a.) dannod, edliw.
TWITCH, (ſ.) tynfa, tynniad.
To TWITCH, (v.a.) Edr. *Pluck*.
To TWÍTTER, (v. n.) crynu, cyffro.
TWÍTTLETWÁTTLE, (ſub.) Edr. *Gabble*.
TWO, (adj.) dau, dwy.

TWÓEDGED, (adj.) danſiniog.
TWÓFOLD, (adj.) dauddyblyg.
TWOHÁNDED, (adj.) mawr.

T Y

TYKE, (ſ.) trogen.
TY'MBAL, (ſ.) Edr. *Kettledrum*.
TY'MPAN, (ſ.) tabwrdd.
TYMPÁNUM, (ſ.) tabwrdd.
TY'MPANY, (ſ.) bolchwydd.
TYPE, (ſub.) figur, dull, eſampl, ffurf, gwaſgod, cyſgod, cynllun, cynddelw.—llythyren argraffu.
TY'PICAL, (adj.) cyſgodol, a ſo yn lledrithio peth.
To TY'PIFY, (v.a.) coſgodi.
TY'POGRAPHER, (ſ.) argraffwr, argraffydd, printiwr.
TY'POGRAPHY, (ſ.) y gelfyddyd o brintio neu argraffu.
TYRÁNNIC, TYRÁNNICAL, (adj.) creulon, trahaus, gormeſol.
To TY'RANNISE, (v. n.) rhwyſgo, gormeſu, arglwyddiaethu neu reoli yn greulon ac yn ormeſol.
TY'RANNOUS, (adj.) creulon.
TY'RANNY, (ſub.) rheolaeth gormeſdeyrn, rheolaeth greulon drahaus, camrwyſg, dywalder, creulondeb.
TY'RANT, (ſ.) gormeſdeyrn, gormeſwr, llywydd creulon, gorthrymmwr, treiſiwr.
TY'RO, (ſ.) dechreuwr celfyddyd.

VA'CANCY, (ſ.) gwagder, gwagedd, gwagle.
VÁCANT, (adj.) gwâg, arlloes, gweilydd, rhydd.
To VACÁTE, (v.a.) gwaghau, gwneuthur yn wâg, arlloeſi, gadael.
VACÁTION, (ſ.) ſeibiant, hamdden, paid, diſpeidiad, ſeguryd.
VACILLÁTION, (ſ.) honciad; anwadalwch, anwaſtadrwydd.
VACUÁTION, (ſ.) arlloeſiad, gwaghad.
VACÚITY, (ſ.) gwagder, gwagedd.
VÁCUUM, (ſ.) gwagder.

VÁGABOND, (ſ.) gwibiad, crwydriad, treiglad, treiglddyn.
VAGÁRY, (ſ.) Edr. *Whim*.
VÁGOUS, (adj.) gwibiog, crwydredig.
VÁGRANCY, (ſub.) gwib, crwydr, crwydrad.
VÁGRANT, (ſ.) Edr. *Vagabond*.
VÁGRANT, (adj.) crwydraidd, gwibiog.
VAGUE, (adj.) gwibiog; anſafadwy; diyſtyr.
VAIL, (ſ.) llenn, llengudd, gorchudd.

To VAIL, (v. a.) gorchuddio.—gollwng i gwympo.—ymddaroſtwng.
VAILS, (ſ.) arian a roddir i waſanaeth ddynion heblaw eu cyflog.
VAIN, (adj.) ofer, gwâg, gorwag, gweilydd.
VAINGLÓRIOUS, (adj.) gwagogoneddus, balch, rhodreſgar.
VAINGLÓRY, (ſ.) gwagogoniant.
VAÍNNESS, (ſ.) oferedd.
VALE, (ſ.) Edr. *Valley*.
VALEDÍCTION, (ſ.) erchiad yn iach.
VÁLENTINE, (ſ.) cariad a ddewiſir ar ddydd St. *Falentine*.
VÁLET, (ſ.) gwas, gweinydd.
VALITUDINÁRIAN, } (adj.) claf-
VALETÚDINARY, } aidd, egwan.
VALETÚDINARY, (ſ.) Edr. *Infirmary*.
VALIANCE, (ſ.) Edr. *Valour*.
VÁLIANT, (adj.) gwrol, dewr, cryf, calonnog, hy, gwych, cadarn, pybyr.
VÁLIANTLY, (adv.) yn wrol.
VÁLIANTNESS, (ſub.) mawrfrydigrwydd, mawredigrwydd, mawrwriaeth, mawrfryd.
VÁLID, (adj.) nerthol, cadarn; effeithiol; pwyſfawr.
VALÍDITY, (ſ.) grym, nerth, gallu.
VÁLLEY, (ſ.) dyffryn, gwaſtadedd, cwm, glynn, pant.
VÁLOROUS, (adj.) Edr. *Valiant*.
VÁLOUR, (ſ.) gwrolder, gallu, cadernid, grym, pybyrwch, glewder.
VÁLUABLE, (adj.) gwerthfawr, prisfawr.
VALUÁTION, (ſ.) gwerth.
VÁLUE, (ſ.) gwerth, pris.
VALVE, (ſ.) dôr, drws, clawr.
VAMP, (ſ.) uchafed, uchaf ledr eſgid.
To VAMP, (v. a.) cyweirio.
VÁMPER, (ſ.) cyweiriwr.
VAN, (ſ.) rhenge flaenaf byddin.—Edr. *Fan*.
To VAN, (v. a.) Edr. *to fan*.
VANE, (ſ.) ceiliog gwynt.
VANGUARD, (ſ.) Edr. *Van*.
To VANISH, (v.n.) diflannu, difannu.
VÁNITY, (ſ.) gwagedd, gorwagedd, gwegi, oferedd, maſwedd.
To VÁNQUISH, (v. a.) gorchfygu, gorfod, goreſgyn, daroſtwng.
VÁNQUISHER, (ſ.) gorchfygwr.
VÁPID, (adj.) diflas, merf, marwaidd.
VÁPIDNESS, } (ſ.) merfdod, marw-
VAPÍDITY, } eidd-dra.
VAPOURÁTION, (ſ.) tarthiad.
VÁPOUROUS, (adj.) llawn tarth.
VÁPOUR, (ſ.) tarth, ager, agerdd, mygdarth, morlwch.
To VAPOUR, (v. n.) tarthu, bwrw tarth.—ffroſtio, rhodreſu.
VÁRIABLE, (adj.) cyfnewidiol, anwadal.
VÁRIABLENESS, (ſ.) cyfnewidiad, anwadalwch, anwaſtadrwydd.
VÁRIANCE, (ſ.) ymryſon, anghydfod, anghyttundeb, amrywiaeth.
VARIÁTION, (ſ.) cyfnewidiad, amrafaeliad, amrywiaeth; gwyrad.
To VÁRIEGATE, (v. a.) amryliwio, britho.
VARIEGÁTION, (ſ.) brithad.
VARÍETY, (ſ.) amrywiaeth, amryfaeliad, cyfnewid.
VÁRIOUS, (adj.) amryw, amrafael, gwahanol; newidiol; anghyffelyb; amryliw, brith.
VÁRLET, (ſ.) Edr. *Scoundrel*.
VÁRNISH, (ſ.) barnais.
To VÁRNISH, (v. a.) barneiſio, caboli.
To VÁRY, (v. a.) amrywio, amryfaelio; newid, cyfnewid.
VÁSCULAR, (adj.) llawn lleſtri.
VÁSE, (ſ.) lleſtr.
VÁSSAL, (ſ.) caethwas, deilad, ymddibynnwr.
VÁSSALAGE, (ſ.) caethiwed; daroſtyngiad.
VAST, (adj.) mawr, dirfawr, amroſgo.
VÁSTNESS, (ſ.) anfeidrolder.
VAT, (ſ.) Edr. *Fat*.
Cheeſe-VAT, (ſ.) caws-leſtr.
To VATÍCINATE, (v. n.) Edr. *to propheſy*.
VAULT, (ſ.) bwa.—ſeler.—ogof.—beddrod.
To VAULT, (v.) gwneuthur bwa.—neidio, llammu.
VÁULTED, (adj.) Edr. *Arched*.
VÁULTER, (ſ.) llamhidydd.
To VAUNT, (v.) ymffroſtio, rhodreſu.
VAUNT, (ſ.) ymffroſt, rhodres.
VAÚNTER, (ſ.) ymffroſtiwr, rhodreſwr.
UBERÓSITY, } (ſ.) ffrwythlonder;
U'BERTY, } amlder.

UBI'QUITY, (ſ.) hollbreſennoldeb.
U'DDER, (ſ.) piw.
VEAL, (ſ.) cig llo.
VÉCTION, } (ſub.) dygiad,
VECTITÁTION, } cludad.
To VEER, (v. n.) cylchdroi, chwildroi.
VÉGETABLE, (adj.) tyfol.
VÉGETABLE, (ſ.) planhigyn.
To VÉGETATE, (v. n.) tyfu.
VEGETÁTION, (ſ.) tyfiad planhigion.
VÉGETATIVE, (adj.) cynnyddol, tyfol.
VÉGETE, (adj.) bywiog, heinyf, cryf.
VÉGETIVE, (adj.) tyfol.
VÉHEMENCE, } (ſ.) angerdd, arth-
VÉHEMENCY, } redd, llymder, taerder, haerllugrwydd.
VÉHEMENT, (adj.) haerllug, taer, angerddol, durfing.
VÉHICLE, (ſ.) menn, cerbyd, cludaj.
VEIN, (ſ.) gwythen.
VÉINED, } (adj.) gwythenog.
VÉINY, }
VELLÉITY, (ſ.) chwant, dymuniad.
VÉLLUM, (ſ.) memrwn.
VELÓCITY, (ſ.) buander, cyflymder.
VÉLVET, (ſ.) melfed.
VELVET, (adj.) o felfed.
VÉNAL, (adj.) gwerthadwy, cyflogaidd, huriol.
VENÁLITY, (ſub.) parodrwydd i wneuthur un peth am wobrwy.
VENÁTIC, (adj.) a berthyn i hela.
To VEND, (v. a.) gwerthu, arwerthu.
VÉNDIBLE, (adj.) gwerthadwy.
VENDI'TION, (ſub.) gwerthiad, arwerthiad.
VÉNDOR, (ſ.) gwerthwr.
VÉNEMOUS, (adj.) gwenwynig, gwenwynllyd.
VÉNERABLE, (adj.) hybarch, parchus, parchedig, anrhydeddus.
To VÉNERATE, (v. a.) perchi, anrhydeddu.
VENERÁTION, (ſ.) parch, anrhydedd.
VENÉREAL, (adj.) a gafwyd trwy drythyllwch.
VENÉREOUS, (adj.) trythyll, anllad.
VÉNERY, (ſ.) hela.— trythyllwch, anlladrwydd.
VENESÉCTION, (ſub.) gollyngiad gwaed.
VÉNGEANCE, (ſub.) dial, dialedd, coſp, coſpedigaeth.
VÉNGEFUL, (adj.) dialeddgar.
VÉNIABLE, } (adj.) maddeuol, a
VÉNIAL, } ellir ei faddeu.
VÉNISON, (ſ.) cig geifr danys; helwriaeth, helfa, *Gen.* xxv, 28. a xxvii. 3.
VENOM, (ſ.) gwenwyn.
VÉNOMOUS, (adj.) gwenwynig.
VENT, (ſ.) agorfa, twll.—gwerth.
To VENT, (v. a.) cyhoeddi; gwerthu.—gollwng i maes.—agoryd.
VÉNTER, (ſ.) crôth, bru.
To VÉNTILATE, (v. a.) nithio.—holi.
VENTILÁTION, (ſ.) nithiad, gwyntiad.
VÉNTRICLE, (ſ.) y cylla.
